



Llywodraeth Cymru

Dogfen Ymgynghori

Ymgynghoriad Technegol ar Orchymyn Ardrethu Annomestig (Diffiniad o Eiddo Domestig) (Cymru) 2015 a Chanllawiau i Dalwyr Ardrethi

Dyddiad cyhoeddi: 3 Awst 2015

Camau i'w cymryd: Ymatebion erbyn 14 Medi 2015

Trosolwg

Ymgynghoriad technegol yw hwn ar fersiwn ddrafft Gorchymyn Ardrethu Annomestig (Diffiniad o Eiddo Domestig) (Cymru) 2015 ("Gorchymyn drafft 2015") a'r canllawiau ategol i dalwyr ardrethi.

Mae Gorchymyn drafft 2015 yn diwygio adran 66(2BB) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 ("Deddf 1988") a ddefnyddir i bennu p'un a ddylai eiddo hunanarlwyo dalu'r dreth gyngor neu ardrethi annomestig.

Sut i ymateb

Croesawn eich sylwadau ar y ffordd y dylai Gorchymyn drafft 2015 a'r canllawiau ategol gael eu cymhwyso'n ymarferol. Gellir anfon y rhain i'r cyfeiriad canlynol:

Is-adran Polisi Cyllid Llywodraeth Leol
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
e-bost: lgf1Consultations2015@wales.gsi.gov.uk

Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig

Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.

Manylion cysylltu

I gael rhagor o wybodaeth:

Is-adran Polisi Cyllid Llywodraeth Leol
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
e-bost: lgf1Consultations2015@wales.gsi.gov.uk
Rhif ffôn: 029 20821542

Diogelu data

Sut y byddwn yn defnyddio'r farn a'r wybodaeth a roddwch inni

Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymdrin â nhw. Mae'n bosibl y bydd aelodau eraill o staff Llywodraeth Cymru yn gweld yr ymateb hefyd, er mwyn eu helpu i gynllunio ymgynghoriadau ar gyfer y dyfodol.

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu'r sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Mae hynny'n helpu i ddangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod i ni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion.

Mae'n bosibl y bydd yr enwau a'r cyfeiriadau y byddwn yn eu cuddio yn cael eu cyhoeddi'n ddiweddarach, er nad yw hynny'n debygol o ddigwydd yn aml iawn. Mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 yn caniatáu i'r cyhoedd gael gweld gwybodaeth a gedwir gan lawer o gyrff cyhoeddus, gan gynnwys Llywodraeth Cymru. Mae hynny'n cynnwys gwybodaeth sydd heb ei chyhoeddi. Fodd bynnag, mae'r gyfraith hefyd yn caniatáu i ni gadw gwybodaeth yn ôl dan rai amgylchiadau. Os bydd unrhyw un yn gofyn am gael gweld gwybodaeth a gadwyd yn ôl gennym, bydd rhaid inni benderfynu a ydym am ei rhyddhau ai peidio. Os bydd rhywun wedi gofyn inni beidio â chyhoeddi ei enw a'i gyfeiriad, bydd hynny'n ffaith bwysig i ni ei chadw mewn cof. Fodd bynnag, fe allai fod rheswm pwysig dros orfod datgelu enw a chyfeiriad unigolyn, er ei fod wedi gofyn i ni beidio â'u cyhoeddi. Byddem yn cysylltu â'r unigolyn ac yn gofyn am ei farn cyn gwneud unrhyw benderfyniad terfynol i ddatgelu'r wybodaeth.

Strwythur y Ddogfen Ymgynghori

Mae'r ddogfen ymgynghori hon yn amlinellu'r canlynol - :

- Cefndir Gorchymyn Ardrethu Annomestig (Diffiniad o Eiddo Domestig) 2010
- Strwythur cyffredinol Gorchymyn drafft 2015;
- Canllawiau ategol i dalwyr ardrethi
- Y camau nesaf

Cefndir

Yn wreiddiol, cyflwynwyd Gorchymyn Ardrethu Annomestig (Diffiniad o Eiddo Domestig) (Cymru) 2010 ("Gorchymyn 2010") er mwyn diwygio adran 66 o Ddeddf 1988, cau bwllch treth ac atal unigolion rhag osgoi talu'r dreth gyngor drwy honni bod eu heiddo (ail gartref fel arfer) yn cael ei ddefnyddio at ddibenion hunanarlwyo.

Cyflwynwyd Gorchymyn 2010 er mwyn atgyfnerthu'r meini prawf a ddefnyddiwyd gan Asiantaeth y Swyddfa Brisió i bennu p'un a ddylai eiddo hunanarlwyo gael ei ddsbarthu'n eiddo annomestig. Yn ôl Gorchymyn 2010, yn ogystal â bod ar gael i'w osod yn fasnachol fel llety hunanarlwyo am gyfnodau byr sy'n dod i gyfanswm o 140 diwrnod neu fwy mewn blwyddyn, rhaid i'r cyfnodau byr y'i gosodwyd mewn gwirionedd ddod i gyfanswm o 70 diwrnod o leiaf (sef y rheol 70 diwrnod ar lafar gwlad). Os na chaiff y meini prawf 140 neu 70 diwrnod eu bodloni mewn blwyddyn, byddai'r eiddo, hyd yn oed os yw'n gweithredu fel busnes hunanarlwyo gwirioneddol, yn cael ei ddsbarthu'n eiddo domestig a byddai'n rhaid iddo dalu'r dreth gyngor. Cyn i Orchymyn 2010 ddod i rym, nid oedd rhaid i berchenogion eiddo hunanarlwyo ond ddarparu tystiolaeth bod yr eiddo ar gael i'w osod yn fasnachol am 140 diwrnod y flwyddyn i gael ei asesu'n eiddo annomestig.

Yn dilyn yr adolygiad wedi'i gomisiynu o Orchymyn 2010 gan y Sefydliad Ardrethu a Phrisio Refeniw a'r ymgynghoriad a ddilynodd hynny, ystyriwyd diwygiadau posibl i adran 66(2BB) o Ddeddf 1988, gyda'r nod o barhau â'r bwriad gwreiddiol i'r meini prawf a fewnosodwyd gan Orchymyn 2010 gau'r bwllch treth, tra hefyd yn mynd i'r afael â materion a godwyd gan fusnesau a rhanddeiliaid allweddol eraill. Gwnaed gwaith manwl a cheisiwyd cyngor gan Asiantaeth y Swyddfa Brisió a Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi.

Strwythur yr Adroddiad

Cedwir meini prawf gwreiddiol adran 66(2BB) (fel y'u mewnosodwyd gan Orchymyn 2010 ac a nodir isod), sy'n golygu y caiff llety hunanarlwyo ei asesu am ardrethi annomestig os:

- bydd ar gael i'w osod yn fasnachol fel llety hunanarlwyo am gyfnodau byr sy'n dod i gyfanswm o 140 diwrnod neu fwy yn y 12 mis canlynol;
- yn y 12 mis cyn yr asesiad bu ar gael i'w osod yn fasnachol fel llety hunanarlwyo am gyfnodau byr yn dod i 140 diwrnod neu fwy;

- roedd y cyfnodau byr y'i gosodwyd yn dod i gyfanswm o 70 diwrnod o leiaf.

Cyflwynir darpariaethau newydd hefyd a fydd yn cynnig mwy o hyblygrwydd er mwyn helpu perchenogion eiddo hunanarlwyo penodol i fodloni'r meini prawf, er enghraifft fferm â nifer o dai allan. Bydd y darpariaethau hyn yn galluogi perchenogion busnes hunanarlwyo sydd â sawl eiddo hunanarlwyo yn yr un lleoliad neu'n agos at ei gilydd i ddewis cyfartaleddu nifer diwrnodau gosod eu heiddo er mwyn bodloni'r maen prawf 70 diwrnod ar gyfer y busnes cyfan. Eglurir hyn yn fanwl yn Atodiad 1 o'r canllawiau.

Canllawiau i dalwyr ardrethi

Mewn ymateb i bryderon am gyflwyno Gorchymyn 2010 a phrinder cyngor ategol, lluniwyd canllawiau i dalwyr ardrethi er mwyn ategu'r broses o gyflwyno Gorchymyn drafft 2015. Mae'r canllawiau hyn yn rhoi cyngor ar y canlynol:

- sut mae'r system ardrethi annomestig yn gweithio;
- sut y caiff gwerthoedd ardrethol a biliau ardrethi eu cyfrifo;
- y meini prawf y mae angen eu bodloni er mwyn dosbarthu eiddo'n fath annomestig;
- sut y caiff eiddo hunanarlwyo ei asesu o ran ardrethi annomestig;
- pa wybodaeth y mae angen i berchenogion eiddo hunanarlwyo ei rhoi i Asiantaeth y Swyddfa Brisio;
- pa gymorth sydd ar gael i dalwyr ardrethi.

6 Y Camau Nesaf

Bydd yr ymgynghoriad ar Orchymyn drafft 2015 a'r canllawiau cysylltiedig yn para chwe wythnos. Ar ôl i'r ymgynghoriad technegol ddod i ben, caiff yr ymatebion eu hystyried a chaiff unrhyw ddiwygiadau pellach sydd eu hangen eu drafftio.

Yn amodol ar y safbwyntiau a gyflwynir yn ystod yr ymgynghoriad technegol, bwriedir gwneud Gorchymyn drafft 2015 yn yr hydref a daw i rym ar 1 Ebrill 2016. Bydd hyn yn rhoi digon o amser i berchenogion eiddo hunanarlwyo, ynghyd ag Asiantaeth y Swyddfa Brisio ac Awdurdodau Bilio, baratoi.

7 Y safbwyntiau a geisir

Rydym yn ceisio barn ar y Gorchymyn drafft a'r ffordd y caiff ei gymhwyso'n ymarferol:

- A ydych yn cytuno y dylid gwneud darpariaethau i gyfartaleddu'r meini prawf 70 diwrnod ar gyfer sawl eiddo sydd yn yr un lleoliad neu'n agos iawn at ei gilydd lle mai'r un busnes sy'n berchen arnynt?

- A oes unrhyw faterion yn codi o ran gweinyddu a gorfodi'r cyfryw ddarpariaeth?
- A oes gennych unrhyw sylwadau ynghylch y Gorchymyn drafft?

O ran y Canllawiau i Dalwyr Ardrethi-

- A yw'r canllawiau yn rhoi digon o gyngor i berchenogion eiddo hunanarlwyo ar y Gorchymyn drafft?
- A ddylai'r canllawiau gwmpasu unrhyw feysydd eraill?